

201- Rhif (Cy.)

201- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A466
(Cylchfan Newhouse i Gylchfan
High Beech, Cas-gwent, Sir
Fynwy) (Gwahardd Troadau
Pedol) 201-

The A466 Trunk Road (Newhouse
Roundabout to High Beech
Roundabout, Chepstow,
Monmouthshire) (Prohibition of U-
Turns) Order 201-

Gwnaed ***** 201-

Made ***** 201-

Yn dod i rym ***** 201-

Coming into force ***** 201-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A466, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A466 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and 2(2) to the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of Gwent Police, make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A466 (Cylchfan Newhouse i Gylchfan High Beech, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd Troadau Pedol) 201- a daw i rym ar *****201-.

1. The title of this Order is the A466 Trunk Road (Newhouse Roundabout to High Beech Roundabout, Chepstow, Monmouthshire) (Prohibition of U-Turns) Order 201- and it comes into force on *****201-.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A466 Llundain i Abergwaun.

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A466 London to Fishguard Trunk Road.

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c.25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd wneud troad pedol wrth fynd ar naill ai cerbyttfordd tua'r gogledd neu gerbyttfordd tua'r de y gefnffordd o'i chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan Newhouse hyd at ei chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan High Beech.

Esemptiad

4. Nid oes dim yn erthygl 3 sy'n gwahardd cerbyd rhag gwneud troad pedol—

(a) pan fo'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(b) pan fo'r person sy'n ei reoli yn gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

**** 201-

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A466 (CYLCHFAN NEWHOUSE I GYLCHFAN HIGH BEECH, CAS-GWENT, SIR FYNWY) (GWAHARDD TROADAU PEDOL) 201-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd cerbydau rhag gwneud troad pedol wrth fynd ar naill ai cerbyttfordd tua'r gogledd neu gerbyttfordd tua'r de cefnffordd yr A466 o'i chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan Newhouse hyd at ei chyffordd â phrif gerbyttfordd gylchredol Cylchfan High Beech yng Nghas-gwent, Sir Fynwy (yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig).

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 19 Mehefin 2019, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â Phlan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am

Prohibition

3. No person may cause or permit any vehicle to make a U-Turn whilst proceeding in either the northbound or southbound carriageway of the trunk road from its junction with the main circulatory carriageway of Newhouse Roundabout to its junction with the main circulatory carriageway of High Beech Roundabout.

Exemption

4. Nothing in article 3 prohibits a vehicle from making a U-Turn when—

(a) the vehicle being used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(b) the person in control of it is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

**** 201-

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

THE A466 TRUNK ROAD (NEWHOUSE ROUNDAABOUT TO HIGH BEECH ROUNDAABOUT, CHEPSTOW, MONMOUTHSHIRE) (PROHIBITION OF U- TURNS) ORDER 201-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1) and 2(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to prohibit vehicles from making a U-Turn whilst proceeding on either the northbound or southbound carriageway of the A466 trunk road from its junction with the main circulatory carriageway of Newhouse Roundabout to its junction with the main circulatory carriageway of High Beech Roundabout at Chepstow, Monmouthshire (subject to limited exceptions).

During a period of 21 days from 19 June 2019, a copy of the proposed Order, together with a Plan and a Statement of Reasons for making the Order, may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Chepstow Library and Community HUB,

ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell a Hyb Cymunedol Cas-gwent, Ffordd y Faenor, Cas-gwent NP16 5HZ neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1364598.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 10 Gorffennaf 2019, a hynny drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1364598. **Noder:** Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fô hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.gweddill.llyw.cymru/legislation/subordinate (Detholer: Deddfwriaeth ddrafft/Offerynnau statudol lleol drafft/Gorchmynion Traffig Parhaol).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A466
(CYLCHFAN NEWHOUSE I GYLCHFAN
HIGH BEECH, CAS-GWENT, SIR FYNWY)
(GWAHARDD TROADAU PEDOL)
201-**

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig o ganlyniad i

Manor Way, Chepstow NP16 5HZ or may be obtained free of charge from the address below quoting the reference number qA1364598.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1364598, must be sent in writing to the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 10 July 2019. **Please note:** Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate (select: Draft Legislation/ Draft Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

**THE A466 TRUNK ROAD (NEWHOUSE
ROUNDAABOUT TO HIGH BEECH
ROUNDAABOUT, CHEPSTOW,
MONMOUTHSHIRE) (PROHIBITION OF U-
TURNS) ORDER 201-**

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is required as a consequence of a

astudiaeth ddiogelwch a gynhaliwyd ar y gefnffordd oherwydd nifer o wrthdrawiadau yn y lleoliad hwn.

Argymhellodd yr astudiaeth y dylid gwahardd troadau pedol er mwyn lleihau nifer y gwrthdrawiadau rhwng cerbydau ar gefnffordd yr A466 a gwella diogelwch ar y ffordd. Bydd y Gorchymyn hwn yn gosod gwaharddiad ar droadau pedol yn y lleoliad hwn.

safety study that was undertaken on the trunk road due to a number of collisions at this location.

The study recommended prohibiting U-turns to reduce vehicle conflicts on the A466 trunk road and improve road safety. This Order will impose a prohibition on U-turns at this location.